

Wylfa Newydd

Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 19: Maes Parcio a Theithio Dalar Hir

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

1.0 Maes Parcio a Theithio Dalar Hir

1.1 Cyd-destun

- 1.1.1 Mae Horizon yn cynnig adeiladu a gweithredu cyfleuster parcio a theithio dros dro i gefnogi gwaith adeiladu Wylfa Newydd. Mae Horizon yn cynnig adfer y safle i'w ddefnydd amaethyddol gwreiddiol ar ôl cwblhau'r gwaith o adeiladu'r orsaf bŵer. Mae'r safle wedi'i leoli'n union i'r gogledd o'r A5, ac yn agos at yr A55. Nid yw'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad o fewn Cydgyllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM).
- 1.1.2 Byddai'r cyfleuster wedi'i leoli mewn ardal sy'n wynebu risg sylweddol o lifogydd fel y mae modelu Horizon eu hunain yn ei ddangos (yn ogystal â'r risg o ddŵr arwyneb a ddangosir ar fap risg llifogydd dŵr arwyneb Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae safleoedd gwarchodedig SoDdGA Llyn Trafwall a Llynnau y Fali ill dau wedi'u lleoli tuag 1km i'r de a'r de-orllewin o'r safle, yn ôl eu trefn. Mae un rhan o SoDdGA Llynnau y Fali (Llyn Dinam) hefyd yn ACA (mae ymyl orllewinol y safle'n draenio i mewn i hwn). Ceir cofnodion o fadfallod dŵr cribog, llyffantod dafadennog, llygod pengrwn y dŵr, madfallod dŵr palfog, dyfrgwn ac adar sy'n bridio ar y safle ac yn agos ato. Mae'r amrywiaeth hon o rywogaethau'n adlewyrchu'r dreftadaeth naturiol gyfoethog ar yr ynys ac mae adroddiad Naws am Le CSYM yn cofnodi pa mor bwysig yw'r amgylchedd naturiol i drigolion Ynys Môn.
- 1.1.3 Nid yw Dalar Hir o fewn unrhyw ddynodiadau tirwedd. Mae'r safle dros 2.5km oddi wrth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn ac mae dros 9km oddi wrth Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) Mynydd Mechell a Chors Malltraeth a'r Cyffiniau.

1.2 Effeithiau a Sail Dystiolaeth

- 1.2.1 Mae'r isadrannau canlynol yn amlinellu'r effeithiau lleol a nodwyd gan CSYM. Ar gyfer testunau nad ydynt yn cael sylw yn y bennod hon, er enghraifft priddoedd a daeareg, gall yr Awdurdod Archwilio ddod i'r casgliad bod CSYM wedi ystyried bod yr effeithiau lleol yn niwtral ar gyfer y safle hwn.
- 1.2.2 Mae CSYM o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau cadarnhaol yn deillio o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r safle parcio a theithio arfaethedig yn Dalar Hir. Fodd bynnag, mae CSYM yn cydnabod bod y modd arfaethedig o ddefnyddio'r safle'n ffordd o liniaru effeithiau a allai fod yn sylweddol fel arall o ganlyniad i weithwyr adeiladu'n symud cerbydau preifat i'r prif safle ac oddi yno.
- 1.2.3 Mae CSYM o'r farn bod y rhan fwyaf o'r effeithiau lleol y rhagwelir y byddant yn digwydd o ganlyniad i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r safle'n **niwtral**. Fodd bynnag, mae CSYM wedi canfod rhai mesurau lliniaru pellach y maent yn credu bod eu hangen i sicrhau bod rhai effeithiau'n aros yn niwtral. Mae'r mesurau lliniaru a restrir isod naill ai'n ymestyn y rhai a nodwyd gan Horizon yn eu datganiad amgylcheddol a'r dogfennau cysylltiedig, neu'n ychwanegol atynt.

Ecoleg

- 1.2.4 Nid yw CSYM wedi canfod unrhyw effeithiau anffafriol sylweddol yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan Horizon ond maent yn nodi nad yw'r asesiad fel y'i nodwyd yn cynnwys arolygon adar sy'n bridio/gaeafu, nac ychwaith asesiad o effeithiau ar dylluanod gwynion sy'n fforio. Yn yr un modd, er bod clwydi ystlumod wedi'u cofnodi gerllaw yng Nghartio Môn, nid oes arolygon gweithgarwch ystlumod wedi'u cynnal ar y safle. Mae CSYM o'r farn bod hyn yn anghyson â'r canllawiau diweddaraf ar arolygon ystlumod (Collins et al 2016) ac er bod effeithiau negyddol yn annhebygol, ni ellir cadarnhau hyn heb gyflwyno gwybodaeth ychwanegol.
- 1.2.5 Hoffai CSYM weld camau lliniaru pellach ar ffurf arolygon cyn adeiladu ar gyfer dyfrgwn yn ymestyn 250m o fannau adeiladu/gwaith daear o ystyried bod aflonyddwch ar y pellter hwn yn gallu effeithio ar walau geni. Ceir ansicrwydd o hyd hefyd ynglŷn â graddfa colli cynefin/aflonyddwch ar hyd cyrsiau dŵr sy'n cynnal llygod pengrwn y dŵr, ac ansicrwydd cysylltiedig ynglŷn â'r dulliau lliniaru i'w defnyddio. Dylai Horizon roi rhagor o fanylion am liniaru ar gyfer llygod pengrwn y dŵr a cheisio cadarnhad gan Gyfoeth Naturiol Cymru y byddant, mewn egwyddor, yn rhoi trwydded.
- 1.2.6 Dylid amlinellu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau ar fadfallod dŵr cribog a llyffantod, ar ffurf arferion gwaith rhagofalus, o fewn yr is-CoCP. Dylai'r ddogfen honno hefyd nodi sut y gwneir iawn am golli cynefin nythu gwenoliaid ac adar y to o ganlyniad i'r datblygiad. Dylai mesurau yn yr is-CoCP i warchod rhywogaethau Adran 7 gynnwys camau y cytunwyd arnynt i ddadleoli mamolion cyn gwaith daear a/neu gael gwared ar lyffantod dafadennog; cyfyngiadau cyflymder i osgoi niweidio bywyd gwylt (draenogod, moch daear, dyfrgwn) a mesurau i osgoi creu refugia i famolion yn ystod y gwaith adeiladu. Dylai'r is-CoCP hefyd amlinellu mesurau i osgoi marwolaeth llysywod, gan gynnwys unrhyw llysywod sy'n croesi glaswelltir llaith; i reoli gwastraff (gweithredol ac adeiladu) i osgoi cynnydd ym mhoblogaethau llygod mawr ac i osgoi aflonyddu ar unrhyw setiau a allai fod heb eu canfod e.e. wedi'u cuddio gan brysg dwys. Dylai'r ddogfen hefyd amlinellu'r gweithdrefnau i osgoi troseddau sy'n ymwneud ag adar sy'n bridio, a dylai hyn gynnwys adeileddau adeiledig, gan gynnwys waliau cerrig, yn ogystal â llystyfiant.

Dŵr Arwyneb a Dŵr Daear

- 1.2.7 Mae ar CSYM angen eglurhad er mwyn bod yn fodlon bod y mesurau draenio (SDCau) a ddefnyddir ar y safle'n cynnwys rheolaeth ddigonol dros silt/maetholion symudol wrth reoli dŵr ffo. Mae'r mater hwn yn arbennig o bwysig o ystyried bod y safle i fyny'r afon o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) 'Llynnau y Fali – Valley Lakes'/ac mae un rhan o'r Safle hwn (Llyn Dinam) hefyd yn ACA.
- 1.2.8 Mae CSYM hefyd yn nodi y cynigir cyfleuster parod i drin carthion o ystyried na fyddai'r cyfleuster toiledau a gynigiwyd wedi'i gysylltu ag unrhyw garthffos sy'n bodoli eisoes. Felly, rhaid i Horizon amlinellu pa mor effeithiol y bydd y

cyfleuster parod drwy'r tymhorau neu pe na bai'n gweithio'n iawn, a dylent roi gwybodaeth ynglŷn â faint o le storio (lwfans cyfaint/amser) a ddarperir pe bai'r cyfleuster parod yn methu, a'r rhyddhad yn stopio'n awtomatig.

Materion economaidd-gymdeithasol

1.2.9 Mae Horizon yn dweud y byddai adeiladu'r cyfleuster parcio a theithio'n cynhyrchu rhai buddion economaidd, gan gynnwys creu swyddi, ac y gallai fod effeithiau cadarnhaol ar gadwynau cyflenwi lleol drwy ddefnyddio contractwyr a busnesau lleol. Mae'r bennod ES yn cofnodi na fyddai dim effeithiau economaidd-gymdeithasol niweidiol sylweddol, ac mae CSYM yn cytuno â'r casgliad hwn.

1.2.10 Mae Horizon ar hyn o bryd yn ymrwymedig i darged llafur lleol o 22% ar draws prosiect Wylfa Newydd. Mae CSYM o'r farn bod y math o weithgareddau adeiladu sydd eu hangen i adeiladu'r cyfleuster parcio a theithio'n addas iawn i'r gadwyn gyflenwi leol ac yn gofyn i Horizon ymrwymo i darged uwch ar gyfer cyflogi pobl leol yn y cyfleuster parcio a theithio yn ogystal ag ymrwymo i'r gadwyn gyflenwi leol. Dylai targed uwch ar gyfer cyflenwi llafur yn lleol fod yn annibynnol ar darged gwaelodlin prosiect Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd, ac ni ddylai arwain at gyflawni canran is ar safle'r Orsaf Bŵer, er enghraifft.

Treftadaeth Ddiwylliannol

1.2.11 Dylid lliniaru'n briodol hefyd rhag newidiadau i gymeriad y lleoliad a'r dirwedd hanesyddol o ganlyniad i ollyngiadau ysgafn, a dylid darparu gwybodaeth bellach am y mesurau i gyflawni hyn. Yn amodol ar gytuno ar y mesurau lliniaru hyn, ni fyddai angen mesurau lliniaru pellach o ran yr amgylchedd hanesyddol.

1.2.12 Gellid lliniaru unrhyw aflonyddu ar weddillion archeolegol drwy gytuno i roi cynllun ymchwilio archeolegol ar waith a ddylai fod yn destun gofyniad DCO penodol.

1.2.13 Ystyrir bod y pynciau canlynol yn profi **effeithiau negyddol**.

Dŵr Arwyneb a Dŵr Daear

1.2.14 Mae pennod ES Horizon ar gyfer Dalar Hir (Tabl 8-5 - Crynodeb o'r Effeithiau Gweddilliol, Atodiad 6.6.8 F8- Dŵr Arwyneb a Dŵr Daear / Atodiad I3-1 (Meistr effeithiau gweddilliol))¹ yn nodi un effaith niweidiol gymedrol - *Mwy o lifogydd yn y cyfleuster Parcio a Theithio oherwydd y newid i lefelau tir a manau anathraidd* - o ganlyniad i'r cyfleuster parcio a theithio arfaethedig yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

¹ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[273] a [391]

- 1.2.15 Mae CSYM wedi asesu'r bennod berthnasol a'r atodiadau ategol, gan gynnwys yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd² ac wedi dod i'r casgliad bod mesurau lliniaru addas wedi'u nodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r derbynyddion a nodwyd y gellid effeithio arnynt, ac y ceir cytundeb am faint posibl y newid. Fodd bynnag, mae gan CSYM bryderon sylweddol am effeithiau risg llifogydd posibl ar y safle a'r goblygiadau y gallai'r rhain eu hachosi i gyfnod gweithredol y cyfleuster parcio a theithio. Maent yn nodi bod Horizon wedi ymrwymo i gamau lliniaru pellach ar ôl asesiad manylach, ac yn nodi y byddant yn 'dylunio allan' y risg. Er gwaethaf hyn, mae'r ES o'r farn bod yr effaith risg llifogydd bosibl yn 'sylweddol' ac mae Horizon yn nodi y darperir y manylion i roi sylw i'r risg y cyfeirir ato ar ôl y DCO. Nid yw hyn yn dderbyniol i CSYM; nid ydynt wedi gweld manylion y mesurau lliniaru y cyfeirir atynt ac mae arnynt angen gweld gwybodaeth ddigonol cyn gwneud unrhyw benderfyniad fel y gallant gynnal asesiad llawn o oblygiadau llifogydd ar y safle. Bydd CSYM yn asesu pa mor briodol yw'r 'mesurau lliniaru pellach' ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru cyn ystyried a ydynt yn dderbyniol. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn a materion eraill isod.
- 1.2.16 Mae atodiad modelu F8-1-3 (Ffigyrau 7.1 a 7.2)³ yn nodi y gallai rhai rhannau o'r maes parcio ddiodeff llifogydd rhwng 1m ac 1.5m o ddyfnder (digwyddiad 100 mlynedd glawol/afonol + newid hinsawdd). Mae'r dyfnderau hyn yn debyg i'r senario gwaelodlin, er bod yr ardaloedd sy'n wynebu risg yn newid fel ymateb i'r newidiadau arfaethedig i lefelau'r tir. Mae Ffigyrau 7.3 a 7.4 yn dangos y gallai dyfnder llifogydd glawol/afonol gynyddu hyd at 0.1m neu fwy dros rai o'r manau maes parcio yn y dyfodol, ond bod y risg o lifogydd i ardaloedd oddi ar y safle'n llai na'r waelodlin, ac yn bwysig, bod y risg o lifogydd i rannau eraill o'r cyfleuster parcio a theithio hefyd yn lleihau.
- 1.2.17 Mae'r adroddiad modelu'n glir y bydd effeithiau risg llifogydd ar y cyfleuster parcio a theithio, ond nid yw'r risgiau hyn a nodwyd wedi'u dwyn ymlaen na'u datblygu ymhellach yn yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd⁴ nac yn yr ES pennod F8 i nodi'n fanwl sut y bydd y seilwaith a gynlluniwyd yn ymateb i ganlyniadau'r risg hwn i bobl a cherbydau, neu i weithrediadau adeiladu yn ystod digwyddiad llifogydd, na sut y bydd yn asesu'r canlyniadau hynny. Heb y manylion hyn, ni all CSYM ddod i'r casgliad y bydd y cyfleuster parcio a theithio'n gallu gweithredu fel sy'n ofynnol. Pe na bai'r cyfleuster hwn ar gael yn ystod y cyfnod adeiladu, gallai hynny achosi effeithiau negyddol sylweddol oherwydd y ddibyniaeth arno er mwyn atal a lleihau effeithiau traffig gweithwyr adeiladu.
- 1.2.18 Mae angen rhagor o fanylion am reoli'r meysydd parcio yn y dyfodol a fydd yn wynebu risg o lifogydd - pobl, cerbydau a'u symudiadau a'r effeithiau ar weithrediadau adeiladu. Dylai hyn amlinellu beth fydd yn digwydd yn ystod digwyddiad llifogydd o ran rhagolygon, gwacáu a'r broses hysbysu.

² Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[281]

³ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[281]

⁴ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[281]

- 1.2.19 Mae angen gwybodaeth bellach hefyd ynglŷn â chynnwys mesurau dylunio addas i reoli'r risg o lifogydd. Mae hyn yn hanfodol, oherwydd mae'n rhaid cyflawni hyn yn foddhaol i sicrhau bod effeithiau ar dderbynyddion risg llifogydd eraill a nodwyd yn cael eu hosgoi. Dylai'r wybodaeth hefyd gynnwys 'rheoli gormodedd' - h.y. sut y caiff glawriad dros y cynhwysedd treiddio/mwy o ddŵr ffo ar yr arwyneb na chynhwysedd rhigolau ei reoli'n ddiogel ar y safle.
- 1.2.20 Yn ogystal â'r uchod, hoffai CSYM gael cadarnhad hefyd ynglŷn â'r mesurau rheoli SDCau fel y gallant fod yn fodlon y bydd y mesurau lliniaru a gynigiwyd yn ddigon cadarn i sicrhau na fydd effaith ar unrhyw SoDdGA/ACA i lawr yr afon. Mae angen ystyried mesurau a ddylai gynnwys darparu pant neu nodwedd debyg cyn yr allfa derfynol i ddraenio manau anathraidd (ffyrdd/llwybrau bysiau/man sefyll caled) gan y byddai hyn yn darparu cam arall tuag at reoli ansawdd dŵr (storio, bio-brosesu, dal halogion). Mae'n ymddangos bod y dulliau gweithredu ar gyfer y maes parcio'n cydymffurfio â CIRIA C753 (Tablau 26.2 a 26.3)⁵, ond ar gyfer y manau anathraidd (ffyrdd/llwybrau bysiau/manau sefyll caled), ym marn CSYM, mae'n debygol y bydd angen cam arall i amddiffyn ansawdd y dŵr i lawr yr afon.

Tirwedd a Gweledol

- 1.2.21 Byddai adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r cyfleuster parcio a theithio'n cynhyrchu effeithiau anffafriol sylweddol ar y dirwedd. Effeithiau lleol fyddai'r rhain yn bennaf a byddent yn digwydd ar y safle neu'n gyfagos iddo. Byddai adeiladu'r cyfleuster yn arwain at gollu perthi mewnlol; mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u dosbarthu'n Bwysig o dan reoliadau perthi 1997 (gwerth diwylliannol), colli glaswelltir a newidiadau i lefelau. Byddai'r effeithiau'n negyddol yn y tymor byr a chanolig (hyd at ddeng mlynedd) ond wrth i'r dirwedd newydd aeddfedu ac ar ôl datgomisiynu ac adfer, byddai'r effeithiau'n lleihau i niwtral.
- 1.2.22 Yn ogystal â chyfansoddiad y dirwedd, byddai effeithiau negyddol yn digwydd i gymeriad tirwedd y safle a'i gyffiniau. Byddai'r rhain yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (y safle a'r cyffiniau) a hynny i ddechrau oherwydd y gwaith adeiladu sy'n digwydd ar y safle. Yn ystod cyfnod gweithredol y prosiect byddai presenoldeb meysydd parcio, ceir, cabanau aros a goleuadau er enghraifft yn arwain at barhad yr effeithiau negyddol. Byddai'r rhain eto'n lleihau wrth i'r dirwedd aeddfedu ac ar ôl datgomisiynu ac adfer y safle. Mae angen cytuno â CSYM ar gynllun goleuo manwl sy'n osgoi goleuo adeiladau cyfagos gan gynnwys eiddo preswyl a chartref gofal cyfagos, cyrsiau dŵr a nodweddion ffiniau.
- 1.2.23 Byddai nifer bach o effeithiau negyddol ar y grwpiau o dderbynyddion gweledol sydd wedi'u lleoli o fewn y Parth Gwelededd Damcaniaethol (PGD) ac ardal yr astudiaeth oherwydd y datblygiad. Mae Horizon wedi nodi rhai o'r effeithiau hyn, ond casgliad CSYM yw bod nifer bach o dderbynyddion

⁵ Llawlyfr SDCau (C753), CIRIA 2015 [\(Dolen\)](#)

gweledol eraill lle dylid asesu bod maint y newid gweledol yn fwy na'r hyn a nodwyd o fewn (Tabl 1-1 Effeithiau Gweledol, Atodiad F10-3)⁶.

- 1.2.24 Mae asesiad CSYM wedi canfod effeithiau gweledol niweidiol sylweddol ychwanegol sy'n achosi cynnydd yn yr effeithiau negyddol. Yng Ngolygfan 1 (golwg gynrychiadol o ffordd gefn sydd i'r gogledd i'r safle Parcio a Theithio) byddai derbynyddion amharhaol ar y ffordd gefn yn profi effeithiau gweddillol cymedrol a sylweddol ym mlwyddyn 1 a 5 y cyfnod gweithredol heb liniaru ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gynigiwyd ar hyn o bryd.
- 1.2.25 Mae CSYM hefyd wedi canfod effeithiau gweledol anffatriol sylweddol yng Ngolygfan 6 (golwg gynrychiadol i'r gogledd o'r A5 Ffordd Caergybi) ar gyfer derbynyddion amharhaol ar yr A5 ar gyfer adeiladu ac ar gyfer Blwyddyn 1 y cyfnod gweithredu oherwydd bydd effaith negyddol ar y derbynyddion.
- 1.2.26 Mae CSYM wedi canfod derbynyddion gweledol preswyl posibl yn y PGD yn Ffigur F10-1 ES Rhifyn F – Parcio a Theithio F10⁷ sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r tair cymuned a nodwyd ac a gynhwyswyd yn asesiad gweledol Horizon. Eu casgliad cyntaf yw y byddai preswylwyr Cartref Preswyl Gwyddfwr yn profi newid maint canolog yn y cyfnod adeiladu, yn rhannol oherwydd bod y cartref 210m oddi wrth y safle a 10m yn uwch na'r safle. Dylai'r preswylwyr, ym marn CSYM, gael eu trin â sensitifrwydd uchel sydd, ynghyd â newid o faint canolog, yn golygu effeithiau negyddol cymedrol a sylweddol yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.
- 1.2.27 Byddai gan breswylwyr Castell olygfa gymharol agored ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Mae'r pellter byrraf at yr eiddo yn 550m a byddai'r preswylwyr yn teimlo effaith niweidiol gymedrol sylweddol, ac felly effaith negyddol.
- 1.2.28 O ystyried yr effeithiau negyddol a nodwyd, mae CSYM yn awgrymu bod angen plannu mwy o blanhigion i guddio'r datblygiad, a hynny ar y safle ac oddi arno. Er enghraifft, ceir cyfle i blannu cyfran o goed mwy ar hyd ymyl y perthi presennol ar y ffiniau gogleddol a dwyreiniol naill ai ar ddechrau'r cyfnod adeiladu neu cyn hynny. Byddai'r coed hyn yn hidlo golygfeydd o'r gogledd a'r dwyrain ar unwaith, a byddai plannu tebyg ar y gylchfan arfaethedig sy'n rhoi mynediad i mewn i'r safle'n hidlo golygfeydd o'r gorllewin a'r gogledd-orllewin.
- 1.2.29 Byddai'r effeithiau negyddol sy'n debygol o gael eu teimlo gan drigolion Cartref Preswyl Gwyddfwr yn cael eu lliniaru drwy blannu planhigion oddi ar y safle ar hyd y ffin orllewinol. Gellid plannu'r rhain naill ai o fewn cwrtel y Cartref neu ar ffurf llain gysgodi ar ochr ddwyreiniol y cae cyfagos. Byddai cyfleoedd eraill i blannu planhigion oddi ar y safle i leihau effeithiau negyddol yn cynnwys y perthi neu'r cloddiau sy'n ffinio'r cae ar ochr ogleddol a gogledd-ddwyreiniol y safle lle mae rhai o ffiniau'r cae wedi'u colli neu mewn cyflwr gwael. Byddai derbynyddion Castell a'r rheini sy'n teithio ar hyd y ffordd gefn

⁶ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[294]

⁷ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[275]

gyfagos yn elwa o atgyfnerthu ffiniau'r cae sydd yn eu golygfeydd presennol tua'r de, sy'n agored gan fwyaf, tuag at y cyfleuster parcio a theithio oherwydd byddai plannu yma'n cuddio'r cyfleuster o'u golygfa.

1.2.30 Mae CSYM yn deall y byddai plannu oddi ar y safle'n digwydd ar dir cyhoeddus neu dir trydydd parti ac y byddai angen ymrwymiad i ddarparu rhaglen reoli sydd wedi'i hariannu a'i monitro'n briodol. Bydd angen cadarnhad o ganiatâd perchennog y tir hefyd. Dylid rhoi rhaglenni plannu ar waith a'u hariannu am gyfnod y cytunwyd arno er mwyn i'r planhigion ymsefydlu a gallu cyflawni eu swyddogaeth(au) mor gyflym ac effeithiol â phosibl.

Traffig a Thrafnidiaeth

1.2.31 Mae CSYM wedi adolygu Asesiad Trafnidiaeth y DCO⁸ ac Atodiad H⁹ ynglŷn â modelu asesiadau o gapasiti nifer o gyffyrdd. Nid yw'r asesiad yn cyflwyno allbwn y model capasiti cyffordd ar gyfer cylchfan arfaethedig safle parcio a theithio Dalar Hir na'r cylchfannau ar wahân sy'n bodoli eisoes ar Gyffordd 4 yr A55. Nid yw'r wybodaeth a roddwyd yn ddigon ychwaith i ddeall yn iawn sut y bydd y safle parcio a theithio'n gweithio na'r potensial ar gyfer ciwio yn ôl at y briffordd gyhoeddus, a goblygiadau hyn i'r gylchfan sy'n rhoi mynediad (Cylchfan Bodedern sy'n bodoli eisoes) ac i Gyffordd 4.

1.2.32 Mae CSYM hefyd yn pryderu nad yw'r llifoedd traffig yng nghyffordd Dalar Hir a ddangosir yn Atodiad C2-3 Llifoedd Traffig¹⁰ yn adlewyrchu'r galw am y cyfleuster o ran ceir a bysiau gwennol.

1.2.33 Mae Horizon wedi cadarnhau i CSYM bod canlyniadau'r model traffig yn cynnwys anomaleddau sy'n cael eu hadolygu. Felly, mae angen gwaith pellach gan Horizon i ddangos na fydd dim problemau gweithredol yn y safle a fydd yn effeithio ar gapasiti, diogelwch na gwytnwch y rhwydwaith priffyrdd cyffiniol. Mae angen i CSYM gael gweld y modelau traffig diwygiedig a'r modelau o'r cyffyrdd i archwilio'r cynigion a'r canlyniadau. Heb y wybodaeth hon, mae CSYM o'r farn y dylid bod yn rhagofalus a bod rhaid tybio y bydd effaith negyddol yn digwydd i'r rhwydwaith priffyrdd.

1.2.34 Mae CSYM yn nodi y byddai'r gylchfan arfaethedig i roi mynediad i'r safle Parcio a Theithio'n dod yn rhan o'r rhwydwaith priffyrdd lleol gan fod ffyrdd presennol yn arwain i mewn i gyfluniad y gyffordd. Mae CSYM wedi cynnal adolygiad o gynllun Horizon ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn peri pryderon diogelwch mawr ynglŷn â dynesiad newydd Ffordd Llundain at y gyffordd o ran radiws llorweddol a'r pellter safle stopio; nid yw'r rhain yn cydymffurfio â'r safonau priffyrdd a amlinellir yn y llawlyfr dylunio ffyrdd a phontydd. Hefyd, mae ailgyflunio mynedfa cyffordd yr orsaf profi cerbydau'n peri materion diogelwch ffyrdd o ran symudiadau'n gwrthdaro a lleiniau gwelededd is-safonol.

⁸ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[101]

⁹ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[109]

¹⁰ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[100]

1.2.35 Mae CSYM wedi canfod dau opsiwn i ymateb i'w pryderon:

- a) Dewis 1 (Hoff Ddewis CSYM): Ailffurfio dynesiad Ffordd Llundain i mewn i gylchfan arfaethedig y safle Parcio a Theithio i unioni'r materion radiws llorweddol a phellter safle stopio yn ogystal â chyffordd yr orsaf profi cerbydau o ran symudiadau'n gwrthdaro a lleiniau gweledd.
- b) Opsiwn 2: Symud y gylchfan Parcio a Theithio newydd tua'r dwyrain i greu cyffordd annibynnol, gan osgoi materion ailffurfio'r rhwydwaith ffyrdd presennol (Ffordd Llundain a ffordd fynediad a chyffordd yr orsaf profi cerbydau).

1.2.36 Câl'r ddau opsiwn eu hadolygu yn erbyn model traffig Horizon i sicrhau na fydd effaith negyddol ar gapasiti, gweithrediad na diogelwch cyffordd y gyfnewidfa. Gofynnodd CSYM am y wybodaeth modelu traffig am gapasiti Cyffordd 3 a/neu 4 yr A55 yn Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio 2, mewn llythyr ym mis Medi 2018, a dilynwyd hynny gan gais mewn Gweithdy Datganiad Tir Cyffredin ym mis Hydref 2018 lle cytunodd Horizon i'w gyflenwi erbyn diwedd mis Hydref 2018. Yn y gweithdy, mae Horizon wedi cadarnhau bod canlyniadau'r model traffig yn cynnwys anomaleddau sy'n cael eu hadolygu. Mae angen gwaith pellach gan Horizon i ddangos na fydd dim problemau gweithredol yn y safle Parcio a Theithio a fydd yn effeithio ar gapasiti, diogelwch na gwytnwch y rhwydwaith priffyrdd cyffiniol. Mae angen i CSYM gael gweld y modelau traffig diwygiedig a'r modelau o'r cyffyrdd i asesu'r cynigion a'r canlyniadau. Nid yw'r wybodaeth honno wedi dod i law ac mae CSYM yn parhau i ofyn am iddi gael ei darparu cyn bo hir.

1.2.37 Mae angen i CSYM gael cadarnhad y bydd fframwaith ar waith i fonitro rhannu ceir, bysiau gwennol ac ati i'r cyfleuster parcio a theithio a fydd yn ddigon cadarn i ganfod unrhyw wendidau/mynd dros lefelau trothwy ac i nodi'n glir sut y darperir unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol y gallai fod eu hangen mewn modd amserol. Dylid sicrhau hyn drwy'r DCO yn ddigon manwl i'r Awdurdod Archwilio allu cael sicrwydd ei fod yn gadarn ac yn realistig.

1.2.38 Mae CSYM yn cydnabod y bwriad i ddarparu safle bws newydd ar yr A5 yn agos at fynedfa cerddwyr / beicwyr i'r cyfleuster parcio a theithio, ac maent o blaid hyn. Mae lluniad WN0902-HZDCO-ADV-DRG-00033¹¹ yn dangos cabanau aros bysiau arfaethedig o fewn y cyfleuster parcio a theithio. Nid yw'n glir a fydd y gwasanaeth bysiau lleol yn gallu mynd ar y safle i ollwng pobl yn y safleoedd bysiau hyn, a fyddai'n annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaeth bysiau lleol i gyrraedd y cyfleuster parcio a theithio. Gellid gwneud mwy i annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy ddarparu gwasanaethau bws lleol ychwanegol yn ystod amseroedd brig ar ddechrau a diwedd y shifft fel opsiwn arall yn hytrach na defnyddio ceir preifat. Byddai hyn yn gyson â'r polisi cynllun datblygu y cyfeirir ato isod.

1.2.39 Yn gyson â'u hystyriaeth i effeithiau posibl o ganlyniad i risg llifogydd ar y safle, byddai CSYM yn pryderu pe bai'r 'lliniaru pellach' a awgrymwyd gan Horizon yn arwain at leihau nifer y manau parcio sydd ar gael ar y safle. Os

¹¹ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[023]

mai dyma'r goblygiad sy'n codi o'r wybodaeth y mae Horizon yn cyfeirio ati, byddai CSYM yn gofyn iddynt ddarparu man parcio arall. Bydd angen cytuno ar faint a lleoliad y man parcio arall hwn â CSYM a bydd angen iddynt gytuno hefyd â'r mesurau lliniaru pellach a yngyniwyd i 'ddylunio'r risg allan'.

1.3 Safbwynt Polisi

- 1.3.1 Mae Polisiâu PS 4, PS 9 a PS 12 y Cydgynllun Datblygu Lleol, Polisi Cynllunio Cymru 8.3.3 ac adran EA15 CCA Wylfa Newydd (2018) yn cyfeirio at gyfleusterau parcio a theithio. Mae Polisi TRA 1 yn cyfeirio at gyfleusterau parcio a theithio parhaol, felly nid yw'n berthnasol i'r datblygiad hwn.
- 1.3.2 Polisi PS 9 yw'r polisi cyffredinol sy'n berthnasol i Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig. Mae maen prawf 3 yn amlinellu'r disgwyliad y bydd cynigion priffyrdd a thrafnidiaeth ar gyfer Wylfa Newydd yn ystyried Polisi PS 4 a pholisiâu perthnasol eraill, yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran trafndiaeth i lefel sy'n dderbyniol, ac y dylid cynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio a dulliau trafndiaeth gynaliadwy eraill.
- 1.3.3 Hefyd, mae maen prawf 12 PS 9 yn datgan y dylai'r holl gynigion fod wedi'u gwasanaethu'n briodol gan seilwaith trafndiaeth, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus a lle ceir cysylltedd trafndiaeth annigonol y bydd angen darparu opsiynau trafndiaeth gynaliadwy i liniaru'r effeithiau.
- 1.3.4 Mae maen prawf 7 yn cysylltu Polisi PS 9 â Pholisi PS 12 Wylfa Newydd – Cyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu. Mae'r Polisi hwn yn nodi y dylid dewis safle mewn modd dilyniannol. Mae maen prawf 1 o fewn Polisi PS 12 yn nodi hoff ddewis CSYM, ac yn datgan, er mwyn lleihau'r angen i weithwyr adeiladu a gweithwyr sy'n gwasanaethu'r cyfleuster i deithio mewn car preifat, y dylai fod safle parcio a theithio wedi ei leoli o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at yr A5/ A55. Wedi rhoi sylw i hoff ddewis CSYM a nodwyd ym Maen Prawf 1, mae Maen Prawf 2 yn caniatáu defnyddio lleoliad arall h.y. lleoliadau addas eraill sydd ar hyd yr A5/ A55.
- 1.3.5 Yn gyson â pholisiâu lleol a chenedlaethol o blaid cyfleusterau parcio a theithio, mae egwyddor y datblygiad yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae safle Dalar Hir yn codi problemau o ran lleoliad a hygyrchedd sydd wedi'u cynnwys o fewn Polisi PS 12.
- 1.3.6 Maent yn gofyn hefyd am ystyried yn bellach y sail resymegol i ddefnyddio un safle yn hytrach na mwy nag un. Gallai darparu mwy nag un safle parcio a theithio wneud mwy i leihau pellteroedd teithio mewn ceir i'r prif safle yn unol â maen prawf 3 Polisi PS 9 a maen prawf (vii.) yn Egwyddor Arweiniol EA 15 CCA Wylfa Newydd.
- 1.3.7 Mae maen prawf 1 ii Polisi PS 12 yn datgan, mewn lleoliadau sydd ar hyd yr A5/ A55, y dylid ystyried darparu dulliau i deithio i'r safle mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus a beicio. Mae maen prawf 2

yn mynnu darpariaeth newydd ar gyfer llwybrau cerdded a beicio neu welliannau i rai presennol a gwelliannau i wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus. Fel y disgrifiwyd uchod, mae Maen Prawf 3 Polisi PS 9 yn nodi y dylai'r cynnig gynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio a dulliau trafndiaeth gynaliadwy eraill. Ar ei ffurf bresennol, nid yw CSYM o'r farn bod y cyfleuster yn darparu'n ddigonol ar gyfer mynediad mewn modd ar wahân i'r car preifat.

1.3.8 Felly, ystyrir bod y cynnig hwn yn mynd yn groes i feini prawf allweddol o fewn PS 12 a PS 9 yn ogystal â maen prawf ix CCA Wylfa Newydd EA 15.

1.3.9 Mae disgwyl i ddatblygiad ar y raddfa hon ddarparu asesiad ynni cynhwysfawr (PCYFF 5) a datganiad cadwraeth dŵr (PCYFF 6). Dylid ystyried y materion hyn.

1.3.10 Isod, darperir ystyriaethau polisi sy'n benodol i'r testun:

Ecoleg

1.3.11 Mae'r polisiâu sy'n berthnasol i liniaru'n cynnwys Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (darperir manylion pellach ym mharagraff 5.3.1 y bennod am Ardal Datblygu Wylfa Newydd). Mae CSYM o'r farn bod y ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol, wedi'i ategu gan bolisi lleol isod, yn cyfiawnhau eu cais am liniaru ecolegol ychwanegol a wneir yn y bennod hon.

1.3.12 Mae Polisi Strategol PS 5 y Cydgynllun Datblygu Lleol, ym mhwynt 6, yn nodi y dylai pob cynnig *'gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth'*.

1.3.13 Mae Polisi Strategol PS 9 y Cydgynllun ym maen prawf 6 yn nodi y bydd y Cynghorau'n mynnu, wrth baratoi'r Adroddiad Effaith Lleol, *'fe ddylai dewis y safle a manylion y cynnig roi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir'*.

1.3.14 Mae maen prawf 8 Polisi PS 19 y Cydgynllun yn nodi, wrth wneud penderfyniad am gais cynllunio, bod angen *'Gwarchod, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol'*.

1.3.15 Mae Polisi AMG5 y Cydgynllun sy'n rhoi sylw i Gadwraeth Bioamrywiaeth Leol yn nodi bod rhaid i gynigion *'warchod a, ble'n briodol, gwella bioamrywiaeth...ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt...coed, gwrychoedd'* ac ati.

1.3.16 Mae EA21 CCA Wylfa Newydd Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn nodi *'lle na ellir atal effeithiau niweidiol, bydd angen rhoi mesurau priodol ar waith i'w lliniaru a/neu eu cydbwysu'*.

1.3.17 Nid yw'r cynigion a gyflwynwyd gan Horizon yn darparu digon o fesurau lliniaru i sicrhau CSYM na fydd effeithiau negyddol lleol yn digwydd i dderbynyddion bioamrywiaeth. Mae angen rhoi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn a sut y rheolir gweithgareddau adeiladu, yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â sut y rhoddir sylw i'r posibilrwydd o lygredd mewn dŵr, a'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn fyddai drwy lunio is-CoCP diwygiedig a llawer mwy manwl.

Tirwedd a Gweledol

1.3.18 O fewn y Cydgyllun Datblygu Lleol, mae Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig yn nodi ym maen prawf 8 y dylid cynllunio'r safle, gan gynnwys tirwedd a phlannu, mewn modd sy'n ceisio osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am effeithiau ar olygfa (ymysg effeithiau eraill). Hefyd, mae maen prawf 13 yn cyfeirio at yr angen i'r baich a'r tarfu ar y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i'r datblygiad gael ei gydnabod ac y dylid gwrthbwysu a digolledu'r gymuned am hynny. Mae maen prawf 16 yn nodi ei bod yn bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld yn sgil y cyfnodau adeiladu a gweithredu, y bydd angen i'r datblygwr wneud gwaith er mwyn gwneud iawn am unrhyw effeithiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Mae hyn yn berthnasol oherwydd bod asesiad Horizon o'r effeithiau gweledol ar dderbynyddion preswyl gweledol yn seiliedig ar chwe golygfan a'r A55 a golygfeydd pell ac mae CSYM o'r farn y gallai fod effeithiau gweledol niweidiol sylweddol ar rai derbynyddion gweledol preswyl na fyddant yn dod i'r amlwg nes bod gwaith y cyfnod adeiladu wedi dechrau neu bod y safle'n weithredol. Mae'r polisi felly'n darparu cefnogaeth i fynnu bod Horizon yn monitro effeithiau, yn adolygu digonoldeb y mesurau lliniaru ac yn gwneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen, gan gynnwys i gynllun y goleuo pe bai effeithiau i'w gweld yn digwydd.

1.3.19 Mae Polisi Strategol PS12: Wylfa Newydd - Cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu yn croesgyfeirio'n ôl at Bolisi PS9. Mae maen prawf 1ii yn pwysleisio'r angen i'r datblygiad gymryd sylw o ystyriaethau tirwedd ac amgylcheddol. Mae maen prawf 3 yn pwysleisio'r angen i liniaru effeithiau negyddol y datblygiad arfaethedig ar gymunedau lleol ac yn rhoi cyfiawnhad i ofyn am ychydig mwy o blannu er mwyn lliniaru ar y safle ac oddi arno.

1.3.20 Mae CCA Wylfa Newydd yn cyfeirio o dan EA 35 (Coridor yr A55/A5) at gyfleoedd i wella'r dirwedd ac yn mynnu y dylid creu llystyfiant newydd i gymryd lle unrhyw llystyfiant a gollir.

1.3.21 Mae adran materion allweddol ACT 17 yn y Diweddariad i Strategaeth Tirwedd Ynys Môn¹², yn cyfeirio'n benodol at goridor trafndiaeth yr A5/A55. Mae'n pwysleisio'r angen i sicrhau bod *“ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i effeithiau gweledol o'r prif goridorau trafndiaeth hyn a thuag atynt”* a bod *“mesurau lliniaru'n adlewyrchu strwythur ehangach y dirwedd ac nad yw safleoedd (megis Dalar Hir) yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain.”*

¹² Strategaeth Tirwedd Ynys Môn Diweddariad 2011, tudalen 75. ([Dolen](#))

Dŵr arwyneb a dŵr daear

- 1.3.22 Yn y Cydgyllun Datblygu Lleol, mae Polisi Strategol PS 5 Datblygu Cynaliadwy meini prawf 6, 7 ac 8 yn ceisio gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, osgoi llygredd, rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy ymysg meini prawf eraill ac mae PS 19 Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol yn ceisio gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol megis SoDdGA Llyn Traflll a Llynau y Fali.
- 1.3.23 Mae cefnogaeth ychwanegol gan bolisiau lleol i safbwynt CSYM ynglŷn â'r angen i wneud mwy i ystyried perygl llifogydd i'w chael yn CCA Wylfa Newydd yn EA 20, 22 a 35.
- 1.3.24 Mae CCA EA 20 Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd yn mynnu y dylid ystyried yn llawn yr effeithiau sy'n codi o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd ar y datblygiad arfaethedig i sicrhau y bydd yn parhau i weithredu os ceir llifogydd. Dylai'r mesurau gynnwys storfa dŵr llifogydd i gydbwysu hyn, defnyddio SDCau a gofyniad am gynlluniau ar gyfer rhybuddio rhag llifogydd a gwagio safleoedd.
- 1.3.25 Mae CCA EA 22 Gwarchod yr Amgylchedd Dŵr yn mynnu bod dŵr wyneb ffo o safleoedd adeiladu'n cael ei reoli drwy gynnwys systemau draenio cynaliadwy, gweithredu cynlluniau rheoli amgylcheddol a darparu mesurau priodol i ymdrin â dŵr gwastraff. Mae CCA EA 35 Coridor yr A55/A5 yn cyfeirio'n benodol at yr angen i warchod Llyn Dinam ac y dylid lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle y mae perygl o lifogydd neu gynnwys dull cynhwysfawr o liniaru perygl llifogydd os na allant gyflawni hyn.

Traffig a Thrafnidiaeth

- 1.3.26 Yn y Cydgyllun Datblygu Lleol, mae Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd yn nodi y caiff y datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio. Mae'r polisi'n datgan y gellir cyflawni hygyrchedd drwy sicrhau mynediad hwylus ar lwybrau, isadeiledd beicio a chlodiant cyhoeddus lle mae'n briodol, ac felly hyrwyddo'r defnydd o'r dulliau yma o deithio ar gyfer teithio lleol a lleihau'r angen i deithio yn y car. Mae Polisi Strategol PS 9: Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig maen prawf 3 yn nodi bod angen ystyried Polisi PS 4 a lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol yn ystod pob cyfnod datblygu. Lle bo'n bosibl, dylai'r cynigion wneud cyfraniad cadarnhaol at amcanion polisi trafndiaeth yn yr ardal leol, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio a dulliau trafndiaeth gynaliadwy eraill.
- 1.3.27 Mae Polisi Strategol PS 12 yn nodi'r meini prawf ar gyfer Cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu Wylfa Newydd. Mae hyn yn cynnwys y lleoliad ar hyd yr A5/A55 neu'n agos atynt ac yn agos at Ganolfannau lle gellir darparu dulliau i deithio i'r safle mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus a beicio. Dylai'r cynigion ddarparu ar gyfer llwybrau

cerdded a beicio newydd neu welliannau i rai presennol a gwelliannau i wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus. Dylid lliniaru effeithiau negyddol y cynigion ar amwynder y gymuned leol, gan gynnwys ffyrdd i mewn ac allan.

1.3.28 Mae cynigion Horizon yn dibynnu'n bennaf ar deithio mewn ceir, rhannu ceir a gwasanaethau bws gwennol a ddarperir gan Horizon i gludo gweithwyr i'r prif safle. Er y cyfeirir at fan storio beiciau ac at lwybr bysiau sy'n bodoli eisoes ar hyd yr A5, mae CSYM o'r farn bod yr ystyriaethau hyn yn gyfyngedig a bod y cyfleuster yn cyflwyno potensial am welliannau mawr i'r seilwaith i gerddwyr a beicwyr i annog teithiau ar droed neu ar feic. Hefyd, nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn y CoCP ar gyfer y Prosiect cyfan ac yn yr is-CoCP priodol ynglŷn â defnyddio bysiau gwennol, er enghraifft, yn rhoi dim manylion am nifer, amllder, llwybrau na hyd y gwasanaethau bws gwennol.

1.3.29 Mae EA15 CCA Wylfa Newydd yn nodi bod angen asesiad cadarn o symudiadau gweithwyr adeiladu ac o ddanfôn defnyddiau, peiriannau ac offer, a dull gweithredu logistaidd sy'n gwneud y defnydd mwyaf posibl o foddau trafndiaeth ar reilffyrdd a dŵr a thrafnidiaeth gynaliadwy i'r gweithwyr. Mae'n nodi bod CSYM yn disgwyl y bydd cynigion yn eu lle cyn dechrau gweithgareddau a fyddai fel arall yn arwain at effeithiau negyddol ac mae o blaid cyflawni trafndiaeth gynaliadwy drwy gynllunio teithio a rhoi mesurau ar waith i hwyluso a hyrwyddo rhannu ceir, cerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus a lleihau teithio drwy rannu ceir preifat a pharcio heb awdurdod neu 'anghyfreithlon' yng nghyffiniau safle Wylfa Newydd. Bydd gweithredu cyfleuster parcio a theithio Dalar Hir yn datrys rhai o'r materion a nodwyd, ond mae CSYM o'r farn y gellid rhoi mesurau ychwanegol ar waith i wella hygyrchedd mewn moddau heblaw'r car preifat. Hefyd, mae CSYM yn dal i bryderu a oes digon o le ar y safle i nifer y lleoedd parcio a gynigwyd bob amser o ystyried y perygl llifogydd posibl ac maent yn ymwybodol, heb dargedau penodol gorfodadwy ar gyfer rhannu ceir, ei bod yn bosibl na fydd digon o leoedd parcio i ateb y galw a fyddai'n arwain at barcio 'anghyfreithlon'.

1.4 Bylchau yn y Wybodaeth

1.4.1 Yn seiliedig ar wybodaeth CSYM am y safle a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn eu hasesiad, mae nifer o fylchau yn y wybodaeth wedi'u nodi. Amlinellir y bylchau hyn a'r angen am wybodaeth ychwanegol o ganlyniad iddynt isod:

Ecoleg

1.4.2 Mae adroddiad yr arolwg Cyfnod 1 yn cydnabod bod y safle'n addas i lawer o rywogaethau Rhestr Ambr a Choch nad ydynt yn cael sylw yn yr asesiad ecolegol. Gan fod disgwyl i'r cyfleuster parcio a theithio achosi colli darnau o gynefin tir fferm lled-naturiol, gan gynnwys glaswelltir a glaswelltir corsiog sydd wedi'i wella'n rhannol, yn ogystal ag ymylon caeau/gwrychoedd, byddai'r asesiad ecolegol yn fwy cadarn pe bai'n cynnwys arolygon adar sy'n bridio/gaeafu, a hefyd asesiad o effeithiau ar dylluanod gwynion sy'n fforio.

- 1.4.3 Mae disgwyl i'r cyfleuster parcio a theithio wedi'i gwblhau gymryd lle cynefin nythu i wenoliaid ac adar y to, ond ni nodir yn benodol sut y cyflawnir hyn.
- 1.4.4 Nid oes digon o wybodaeth am warchod derbynyddion ecolegol o fewn yr is-CoCP a gyflwynwyd. Ceir crynodeb o'r manylion sy'n ofynnol gan CSYM yn yr asesiad o effeithiau ecolegol uchod ac i'w grynhoi mae'n cynnwys mesurau i warchod rhywogaethau Adran 7, gan gynnwys llysywod yn ogystal â mesurau i atal fermin.

Tirwedd a Gweledol

- 1.4.5 Mae CSYM o'r farn y dylid diweddarau Ffigyrau 2 a 3 (yn Atodiad F9-1 Arolwg Cynefin Estynedig Cyfnod 1 Dalar Hir ac Arolwg HIS¹³) i ddangos lleoliadau'r holl wrychoedd sydd wedi'u rhifo yn Nhabl 3 yn Atodiad C (yn Atodiad F9-1¹⁴), fel y gellir canfod cyflwr, cyfoeth rhywogaethau a chyfansoddiad yr holl gloddiau ar y safle.
- 1.4.6 Nid yw DAS Ffigwr 17 (Rhifyn 3, Atodiad 1-3)¹⁵ yn gyson â'r Arolwg Cynefin¹⁶ (fel y'i cyflwynwyd ar hyn o bryd) a dylid ei ddiweddarau i adlewyrchu'r Arolwg Cynefin wedi'i ddiweddarau (pan gaiff ei ddiweddarau).
- 1.4.7 Mae angen gwybodaeth yr arolwg wedi'i diweddarau ar CSYM er mwyn deall yn llawn sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar gyfansoddiad y dirwedd (ac o ganlyniad, ar gymeriad y dirwedd, amwynder gweledol, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol) a hefyd i gynorthwyo â chynllun manwl y safle.
- 1.4.8 Nid yw'r DAS (Rhifyn 3, Atodiad 1-3)¹⁷ yn cyfeirio at Bennod F11¹⁸ (para 11.3.22) nac at Ffigwr F11-1 a byddai'n ymddangos nad yw cynllun y Cyfleuster Parcio a Theithio wedi'i seilio ar yr angen i gadw cymaint â phosibl o'r gwrychoedd pwysig a ddiffiniwyd gan Reoliadau Gwrychoedd 1997 am eu gwerth diwylliannol ym Mhennod F11. Ceir tystiolaeth o werth a phwysigrwydd patrwm y gwrychoedd a'r caeau ar y safle yn nogfennau Horizon eu hunain ac ategir hyn gan ddata LANDMAP (sy'n gwerthuso'r Dirwedd Caeau Ardal Agwedd Hanesyddol, Canol Dwyrain Môn (HL016) fel un ragorol, gweler Pennod F11, para 11.3.22¹⁹), data'r map (sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'r ffiniau caeau presennol ar y safle ac o'i gwmpas yn bodoli yn 1840), arsylwadau gwaith maes a ffotograffau o'r awyr. Gellir unioni'r camgymeriad hwn â gofyniad DCO am gynllun manwl wedi'i addasu ar gyfer y Cyfleuster Parcio a Theithio, y dylid ei gyflwyno i CSYM i'w gymeradwyo (gweler isod).

¹³ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[282]

¹⁴ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[282]

¹⁵ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[410] tudalen 40.

¹⁶ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[282]

¹⁷ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[410]

¹⁸ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[276]

¹⁹ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[276]

- 1.4.9 Mae CSYM hefyd o'r farn bod diffyg gwybodaeth i'w chael am y mesurau diogelwch a gynigir. Disgrifir y rhain ar hyn o bryd fel "sensitif a phriodol" (DAS Rhifyn 3, Atodiad 1-3²⁰, tudalen 49) ond, ar wahân i ffens ddiogelwch 1.8m math paladin a ddangosir ar y Meistr Gynllun Tirwedd Arfaethedig a'r Lefelau Gorffenedig (WN0902-HZDCO-ADV-DRG-00035)²¹, ni roddwyd manylion pellach. Dylid cynnig mesurau i leihau presenoldeb ac amlygrwydd y ffens hon, megis defnyddio lliwiau enciliol, llwybro ar hyd gwrychoedd sy'n bodoli (ond oddi allan i ardal y gwreiddiau), plannu y tu mewn a'r tu allan i linell y ffens a defnyddio mesurau diogelwch eraill i reoli cylchrediad cerddwyr a cherbydau y tu mewn, e.e. ffosydd, byndiau, waliau cerrig, ffensys pyst pren a rheiliau, ac ati a chyfyngu'r ffens ddiogelwch i berimedr y safle. Gellid rhoi sylw i'r mesurau hyn hefyd â gofynion DCO am y cynllun manwl wedi'i addasu a'r cynlluniau tirwedd caled a meddal (gweler isod).
- 1.4.10 O ran gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag effeithiau gweledol, mae'r ffaith na roddwyd ystyriaeth i effeithiau ar dderbynyddion gweledol preswyl mewn eiddo sydd wedi'i leoli o fewn ardal yr astudiaeth a'r PGD ond y tu allan i gymunedau Bodedern a Llanfihangel-yn-Nhywyn yn peri pryder i CSYM. Mae CSYM o'r farn bod angen asesu'r effeithiau ar eiddo preswyl unigol er mwyn deall yr effeithiau a pha mor angenrheidiol neu beidio yw camau lliniaru pellach.
- 1.4.11 Ceir bylchau yn y wybodaeth hefyd ynglŷn â chynigion ar gyfer y strategaeth ddatgomisiynu neu ar ôl y cyfnod gweithredu. Mae Adran 9 Ar ôl Gweithredu yn Atodiad 1.3 y DAS²² yn awgrymu y byddai'r plannu ychwanegol a ddarperir yn y cyfnod datgomisiynu, yn bennaf i lenwi'r bylchau mewn cloddiau a gedwir ac adfer patrwm gwreiddiol y cloddiau, yn destun "*strategaeth rheoli tirwedd dymor hir*" fel y nodir yn Nhabl F10-5 ym mhennod LVIA yr ES (F10)²³. Mae angen egluro cyfansoddiad y strategaeth reoli dymor hir a phwy sy'n gyfrifol am ei gweithredu. Nid yw'n glir ychwaith o Adran 9 nac o'r Cynllun Adfer yn Ffigur F1-5²⁴ pa rai, os unrhyw rai, o'r darnau newydd o wrychoedd a blannir a fydd yn gloddiau. Dylid ystyried sicrhau bod cyfran o'r gwrychoedd newydd yn gloddiau.

Dŵr Arwyneb a Dŵr Daear

- 1.4.12 Mae ar CSYM angen rhagor o fanylion am liniaru'r perygl llifogydd ar gyfer y cyfleuster parcio a theithio ei hun. Dylai hyn gynnwys ystyried goblygiadau ehangach y ffaith na fydd rhan o'r cyfleuster ar gael yn ystod ei gyfnod gweithredol, a sut y byddent yn rheoli symudiad gweithwyr yn ystod digwyddiad llifogydd a graddfa a lleoliad darpariaeth barcio amgen.
- 1.4.13 Cydnabyddir bod y SDCau arfaethedig yn fesur lliniaru allweddol ac o ran swm y dŵr mae'n ymddangos bod y paramedrau a nodwyd yn briodol i reoli'r dŵr ffo yn y modd gofynnol. O ran ansawdd dŵr fodd bynnag, er y nodir bod

²⁰ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[410]

²¹ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[023]

²² Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[410]

²³ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[275]

²⁴ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[303]

manylion mesurau arfer da wedi'u rhoi, dylid darparu rhagor o fanylion am reoli'r SDC i gadarnhau y gellir rheoli effeithiau ar ansawdd dŵr.

1.4.14 O ystyried sensitifrwydd safleoedd gwarchoddedig cyfagos a'r pwysigrwydd a roddir i'w gwarchod ym mholisiau'r cynllun datblygu, hoffai CSYM hefyd weld asesiad o effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) 'Llynau y Fali – Valley Lakes'/ACA Llyn Dinam a hefyd dylid darparu gwybodaeth bellach i gyfiawnhau casgliad asesiad na fydd effaith sylweddol ar y ffynnon sy'n bodoli ar y safle Parcio a Theithio.

1.4.15 Mae CSYM yn nodi y bydd y cyfleuster parod arfaethedig yn stopio rhyddhau dŵr yn awtomatig pe bai ansawdd y dŵr wedi'i drin yn annerbyniol. Mae angen gwybodaeth bellach ynghylch faint o le storio a ddarperir i ymdopi â llifoedd tra nad yw'r cyfleuster yn rhyddhau dŵr, yn ogystal â'r sbardun ar gyfer atal y cyfleuster.

Traffig a Thrafnidiaeth

1.4.16 Yn gyson â sylwadau CSYM ynglŷn â dŵr arwyneb a dŵr daear, mae angen rhagor o wybodaeth am yr effeithiau risg llifogydd posibl ar y safle a'r goblygiadau y gallai'r rhain eu hachosi i gyfnod gweithredol y cyfleuster.

1.4.17 Mae gan CSYM bryder gweddilliol ynglŷn â chapasiti cylchfannau cyfnewidfa Cyffordd 3 a 4 yr A55 yn ogystal â chapasiti'r gylchfan fynediad a mynedfa'r safle i ymdopi â'r holl yrwyr a fydd yn cyrraedd ar adegau newid shifftiau. Mae CSYM yn dal i bryderu ynglŷn â'r posibilrwydd o giwio ar y briffordd ac oherwydd diffyg data traffig am lifoedd yn y cyffyrdd, a gwybodaeth fanwl am sut y gweithredir y maes parcio a'r posibilrwydd o giwio, nid yw'n bosibl deall yr effeithiau posibl yn iawn.

1.4.18 Felly, mae angen y wybodaeth ganlynol i alluogi CSYM i ddeall yn well sut y byddai'r cyfleuster yn gweithredu a'r gwaith asesu capasiti:

- a) Nodi sut y bydd y rhwystrau'n gweithredu, e.e. meddalwedd ANPR, a'r amser y rhagwelir y bydd ei angen i gerbydau fynd heibio i'r rhwystr;
- b) Sut y rheolir y maes parcio pe bai cerbyd yn torri i lawr/problem wrth y rhwystr yn y maes parcio;
- c) Gwybodaeth am sut y dyrennir y gwahanol ardaloedd parcio i weithwyr, yn enwedig Ardaloedd 2, 3 a 4, a sut y rheolir un fynedfa/allanfa yr ardaloedd hyn i sicrhau effeithlonrwydd;
- d) Llifoedd traffig troi ar gyfer 2016, 2020, 2023 a 2033 yn y senario cyfeirio a'r senarios gyda datblygiad ar gyfer y cylchfannau a nodwyd uchod; ac
- e) Allbwn model meddalwedd Junctions 9 ar gyfer y cylchfannau a nodwyd uchod.

1.4.19 Mae angen datrys nifer o faterion mewnol, materion dylunio a materion cylchrediad o hyd o ran safle'r datblygiad cysylltiedig hwn, ac esboniwyd y rhain wrth nodi'r effeithiau negyddol uchod.

1.4.20 Mae 'adroddiad gwyriadau [oddi wrth safonau dylunio'r DRMB]' wedi'i baratoi ar gyfer y gwaith all-lein ar yr A5025 ond nid ar gyfer safleoedd eraill. Mae CSYM yn dweud bod 'adroddiadau gwyriadau' yn ofynnol ar gyfer pob gwaith sy'n effeithio ar y briffordd gyhoeddus neu sy'n creu ffyrdd a fydd yn briffyrdd cyhoeddus neu a ddefnyddir gan y cyhoedd. Byddai CSYM yn gofyn i'r Awdurdod Archwilio fynnu bod adroddiadau gwyriadau'n cael eu cyflwyno ar gyfer y safle hwn fel y gellir ystyried y cynllun manwl arfaethedig yn briodol.

1.5 Rhwymedigaethau a Gofynion DCO

1.5.1 I ddiwallu'r angen am fanylion pellach ynghylch y pynciau y cyfeirir atynt uchod, bydd CSYM yn ceisio diwygiad i ofyniad DCO PR 1 i baratoi is-CoCP diwygiedig a manylach i gytuno ag ef cyn dechrau'r gwaith datblygu. Dylai'r is-CoCP manwl gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- a) datganiadau dull i ddiogelu derbynyddion ecolegol ac atal fermin.
- b) trefniadau cynhwysfawr ar gyfer 'cynllun digwyddiad llifogydd' i roi sylw i sut y câi symudiadau gweithwyr adeiladu eu rheoli pe bai llifogydd difrifol yn digwydd;
- c) cadarnhad ynghylch sut yr ymdrinnir ag effeithiau ar y ffynnon ar y safle yn ystod y broses adeiladu;
- d) manylion ychwanegol ynglŷn â'r elfennau ansawdd dŵr ar y SDC;
- e) darparu datganiad dull manwl ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol;
- f) mesurau ychwanegol i annog mynediad i'r safle ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys safleoedd bws o fewn y cyfleuster. Naill ai o fewn yr is-CoCP neu fel rhan o CoCP y Prosiect cyfan, llawer mwy o fanylion ynglŷn â sut y rheolir traffig adeiladu. Yn berthnasol i'r cyfleuster parcio a theithio, llawer mwy o wybodaeth am gynlluniau wrth gefn ar gyfer ciwio ac am ddefnyddio bysiau gwennol, cynlluniau wrth gefn ar gyfer y posibilrwydd o gau'r cyfleuster yn rhannol neu'n llawn, mesurau i fonitro a rheoli parcio anghyfreithlon yn agos at y cyfleuster ac yn bellach i ffwrdd.

1.5.2 Hoffai CSYM hefyd weld Cod Arferion Gweithredol diwygiedig ar gyfer y Prosiect cyfan yn rhoi manylion am gynlluniau wrth gefn i liniaru risg llifogydd ar gyfer cyfnod gweithredol y cyfleuster Parcio a Theithio a'r cyfleuster parod i drin carthion.

1.5.3 Hoffai CSYM ddiwygio gofyniad DCO PR2 Lluniadau Dylunio Manwl er mwyn cyflwyno manylion ychwanegol y tu hwnt i'r manylion a ddarparwyd ar y lluniad tirwedd (Ffigwr WN0902-HZDCO-ADV-DRG-00035, Rhifyn 2.11)²⁵ i CSYM i'w cymeradwyo cyn i'r gwaith datblygu ddechrau yn y safle. Hoffai CSYM weld addasiadau i'r lluniadau tirwedd a gyflwynwyd, a dylai'r lluniadau newydd ddarparu ar gyfer tirwedd galed a meddal a chynnwys:

²⁵ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[023]

- a) Cynllun manwl yn dangos lleoliadau a dimensiynau'r holl elfennau tirwedd galed, gan gynnwys yr holl fesurau a gosodiadau diogelwch.
- b) Manylebau a lluniadau adeiladu ar gyfer y ffens ddiogelwch, yr arwyneb athraidd a phob arwyneb caled o fewn y safle.
- c) Rhaglen weithrediadau ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r cynllun tirwedd galed drwy gydol y prosiect.
- d) Cadw mwy o'r llystyfiant aeddfed presennol ar y ffiniau, yn enwedig y cloddiau pwysig sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau a mesurau i reoli'r rhain i gyflawni uchder o 3.5m o leiaf.
- e) Plannu i feddal ymddangosiad y ffens ddiogelwch.
- f) Plannu'r holl gloddiau, coed a llwyni brodorol newydd eraill a'r glaswelltiroedd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau fel y cynigiwyd ar WN0902-HZDCO-ADV-DRG-00035.²⁶
- g) Rhestr fanwl o blanhigion ar gyfer plannu gwrychoedd, llwyni a choed i gynnwys rhywogaethau, meintiau, niferoedd a bylchau rhwng plannu/dwyseddau.
- h) Rhestr fanwl o gymysgeddau rhywogaethau ar gyfer y glaswelltiroedd cyfoethog o ran rhywogaethau arfaethedig gan gynnwys rhywogaethau a chyfraddau plannu hadau.
- i) Tarddiad a ffynonellau'r holl blanhigion a chymysgeddau hadau (dylai'r tarddiad fod yn lleol neu o Ogledd Cymru a dylid tyfu planhigion mewn meithrinfa leol ar Ynys Môn am o leiaf flwyddyn cyn eu plannu er mwyn i'r planhigion ymgylfarwyddo â'r amodau lleol).
- j) Cynlluniau plannu manwl yn dangos lleoliadau'r holl blanhigion i'w plannu a'r glaswelltiroedd i'w sefydlu.
- k) Manyleb ar gyfer y gweithrediadau gosod pridd, hau, plannu a chynnal a chadw.
- l) Rhaglen weithrediadau ar gyfer sefydlu a chynnal a chadw'r cynlluniau tirwedd feddal drwy gydol y prosiect. Dylai'r rhaglen gynnwys gwneud yr holl blannu y tu allan i'r ffens ddiogelwch cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, fel y gall y planhigion ddechrau sefydlu a dechrau meddalau ffens y ffin cyn gynted â'i bod wedi'i gosod.

1.5.4 Dylai gofyniad PR2 hefyd ganiatáu newidiadau i fynedfa'r cyfleuster Parcio a Theithio er mwyn gallu addasu'r gylchfan arfaethedig fel y nodwyd eisoes yn y bennod hon.

1.5.5 Hoffai CSYM hefyd weld gofyniad i gyflwyno dyluniad a chynllun wedi'u haddasu ar gyfer y safle. Dylid cyflwyno'r rhain i CSYM i'w cymeradwyo cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle, gan gynnwys dyluniad sydd:

- a) Yn lleihau colledion gwrychoedd pwysig, gwrychoedd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau a choed mewn gwrychoedd o fewn y safle.
- b) Yn aildefnyddio'r holl bridd sy'n tarddu o'r safle.
- c) Yn rhoi manylion y mesurau diogelwch a osodir.
- d) Yn rhoi manylion pellach ynglŷn â chynllun a dyluniad adeiladau ac adeileddau eraill gan gynnwys lleoliadau terfynol, dimensiynau a defnyddiau, lliwiau a gorffeniadau allanol

²⁶ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[023]

- 1.5.6 Dylid cyflwyno naill ai'r dyluniad tirlunio diwygiedig y cyfeiriwyd ato uchod, neu gynllun arall, i nodi pa goed, llwyni, gwrychoedd, cyrsiau dŵr ac arweddion tirwedd presennol eraill (e.e. waliau cerrig, cloddiau) a gedwir a'r mesurau a ddefnyddir i'w gwarchod yn ystod y cyfnod adeiladu i CSYM i'w cymeradwyo cyn i waith ddechrau ar y safle.
- 1.5.7 Mae CSYM hefyd yn ceisio Gofyniad i gyfyngu uchder twmpathau storio uwchbridd ac isbridd i 2m. Maent yn ceisio gofyniad i ddarparu cynllun goleuo manwl sy'n osgoi goleuo adeiladau cyfagos gan gynnwys eiddo preswyl a chartref gofal cyfagos, cyrsiau dŵr ac arweddion ffin (i leihau golau yn y nos ac effeithiau ar gymeriad y dirwedd a dyheadau Ynys Môn am statws Awyr Dywyll) i CSYM i'w gymeradwyo cyn i waith ddechrau ar y safle. Dylai'r cynllun goleuo fod yn gyson ag arweiniad yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod²⁷.
- 1.5.8 Gellid lliniaru unrhyw aflonyddu ar weddillion archeolegol drwy gytuno i roi cynllun ymchwilio archeolegol ar waith a ddylai fod yn destun gofyniad DCO penodol i ganiatáu i CSYM gyflawni hyn, gan ymgynghori â GAPs yn hytrach na dibynnu ar y rheolyddion a amlinellir yn adran 12 yr is-CoCP Parcio a Theithio.
- 1.5.9 Dylid newid teitl gofyniad DCO ²⁸ PR5 i 'Parcio Ceir a Beiciau Gweithredol' a dylai gyfeirio at isafswm nifer y lleoedd y mae'n rhaid eu darparu ar bob cam adeiladu yn ogystal ag uchafswm cyffredinol. Dylid darparu naill ai PR5 diwygiedig neu ofyniad newydd i sicrhau bod digon o leoedd ar gael erbyn yr adeg y bydd eu hangen i lliniaru nifer y gweithwyr sydd eu hangen ar y prif safle. Rhaid i'r lleoedd i gyd fod yn weithredol cyn Blwyddyn 3 Ch1 (gweler 'Materion Eraill' isod). Isod hefyd, trafodir newid i'r gofyniad PR6 er mwyn dileu'r cyfeiriad at dir amaethyddol a chyfeirio yn lle hynny at ddefnydd yn y dyfodol y cytunwyd arno (ac sydd o bosibl wedi cael caniatâd) â CSYM.

1.6 Materion eraill

- 1.6.1 Mae CSYM yn mynnu bod y cyfleuster wedi'i gwblhau ac yn gwbl weithredol cyn Blwyddyn 3, Ch1. Bydd hyn yn golygu bod rhaid cwblhau'r cyfleuster erbyn blwyddyn 2 Ch4 a hoffai CSYM weld gofyniad penodol i sicrhau bod y cyfleuster cyfan ar gael. Mae drafft presennol y Strategaeth Gam wrth Gam ar lefel uchel iawn ac mae ar CSYM angen mwy o sicrwydd y bydd yr holl leoedd parcio arfaethedig wedi'u hadeiladu ac ar gael.
- 1.6.2 Mae Horizon yn cynnig datgomisiynu cyfyngedig ar y safle ar ôl cwblhau'r gwaith o adeiladu'r prif safle. Dim ond yr amser i adeiladu a chomisiynu'r cyfleuster sydd wedi'i ddangos yn y Strategaeth Gam wrth Gam a gyflwynwyd gan Horizon. Nid yw Atodiad D1-1 Datganiad Dull Adeiladu ychwaith yn cyfeirio at ddatgomisiynu'r cyfleuster. Hoffai CSYM sicrhau bod mecanwaith yn ei le i ganiatáu iddynt gytuno ar y dyddiad datgomisiynu fel na chaiff y

²⁷ Ystlumod a goleuo artiffisial yn y DU. Nodyn Arweiniad 08/18. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod a Sefydliad y Gweithwyr Goleuo Proffesiynol ([Dolen](#))

²⁸ Llyfrgell Archwilio cyfeirnod APP-[029]

cyfleuster Parcio a Theithio ei gau'n rhy gynnar. Bydd angen gweithwyr i gael gwared ar y Campws ar y Safle arfaethedig a'r cyfarpar adeiladu a ddefnyddir yn y Prif Safle ac efallai y bydd angen cadw rhyw elfen ar y cyfleuster Parcio a Theithio.

- 1.6.3 Er bod CSYM yn derbyn egwyddor cyfleuster parcio a theithio, maent yn parhau i anghytuno â strategaeth Horizon sy'n awgrymu bod un cyfleuster o'r fath yn ddigon ar yr Ynys. Ym marn CSYM, dylid darparu cyfleusterau ychwanegol mewn mannau strategol ar hyd y rhwydwaith priffyrdd oherwydd byddai'r cyfleusterau hyn yn gwneud teithiau mewn ceir preifat yn fyrrach ac yn darparu gwytnwch i Horizon pe bai llifogydd neu ddigwyddiadau eraill yn achosi i gyfleuster parcio a theithio Dalar Hir gau'n rhannol neu'n llawn.
- 1.6.4 Mae CSYM o'r farn bod angen sicrhau cytundeb ynghylch darpariaeth amgen a/neu brotocolau rheoli pe bai'n rhaid i'r cyfleuster gau'n llawn neu'n rhannol yn ystod cyfnod adeiladu'r prif safle. Bydd angen i CSYM, Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru gytuno ynglŷn â manylion y gweithdrefnau wrth gefn a roddir ar waith. Oni chytunir ar weithdrefnau, byddai CSYM yn disgwyl i fesurau lliniaru Horizon gynnwys lleihau maint y gweithgaredd ar y prif safle fel ffordd o leihau'r galw am leoedd parcio. Nid yw CSYM am weld sefyllfa lle byddai gweithwyr sy'n methu â defnyddio'r maes parcio a theithio'n parcio'n flêr ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.
- 1.6.5 Mae CSYM o'r farn bod y cyfleusterau a ddarperir yn y safle parcio a theithio, ar eu gorau, y lleiaf sydd ei angen; yn y bôn, nid ydynt yn addas at y diben. Yr unig gyfleusterau a ddarperir i weithwyr sy'n defnyddio'r cyfleuster parcio a theithio yw cyfleusterau toiled sylfaenol; o ystyried maint yr adeiledd arfaethedig, nid yw'n ymddangos y bydd y rhain yn ddigon i nifer y bobl a fydd yn defnyddio'r cyfleuster parcio a theithio ar unrhyw ddiwrnod gwaith. O ystyried y bydd pobl yn gweithio ar Safle'r Orsaf Bŵer drwy gydol y flwyddyn, a bod angen i yrwyr aros am y bysiau gwennol ym mhob math o dywydd, mae angen cyfleusterau at safon uwch na'r rhai arfaethedig. O leiaf, byddai CSYM yn disgwyl i Horizon ddarparu ystafell aros neu adeilad terfynell tebyg gan gynnwys lluniaeth sylfaenol a chyfleusterau eraill.
- 1.6.6 Mae CSYM yn nodi cynigion Horizon i adfer y safle i ddefnydd amaethyddol ar ôl y cyfnod gweithredol. Mae'r rhagamcaniad o oes y cyfleuster yn wyth mlynedd, felly gallai safbwynt CSYM am ba mor briodol yw'r adferiad arfaethedig newid wrth i bolisiau cynllunio cenedlaethol a lleol newid ac wrth i gyfleoedd am etifeddiaeth ddod i'r amlwg. Felly, hoffai CSYM gael cyfle i benderfynu ai adfer ynteu cadw'r cyfleuster a'i drefniadau mynediad cysylltiedig yw'r defnydd terfynol mwyaf priodol i'r safle ar ddiwedd cyfnod y cyfleuster parcio a theithio. Felly, mae CSYM yn gofyn i Horizon gyflwyno cynllun ar gyfer defnyddio'r safle ar ôl y cyfnod gweithredol ddeuddeg mis cyn iddynt fwriadu ei gau. Yna, bydd CSYM yn adolygu ac yn ystyried pa mor briodol yw'r defnydd a fwriedir ar ôl y cyfnod gweithredol o safbwynt y polisiau ar y pryd.